

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Tachwedd 2023 o Gyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanddarog ar 08/11/2023 am 19.00.

108/2023-2024 Presennol.

Cynghorwyr: S Herridge (Cadeirydd), R Jones, M Griffiths, R Owen, R McFarlane, T Evans.

Y Cynghorydd Sir A Davies.

Clerc.

Cyfieithydd: C Llwyd.

109/2023-2024 I dderbyn ymddiheuriadau.

Cynghorwyr: Y Cyng Sir H Jones, J Williams O.B.E, M Rees, K Waters, R Newell.

110/2023-2024 Derbyn datganiadau o ddiddordeb.

Dim.

111/2023-2024 Cyfleir cyhoedd annerch y Cyngor ar eitemau ar yr agenda.

Mynychodd aelod o'r cyhoedd y cyfarfod fel gwylwr ond nid oedd am annerch y cyngor.

112/2023-2024 Materion y Cyngor Sir - Sir Dywedodd y Cyng A Davies.

Adroddodd y Cynghorydd Sir A Davies fod cyfarfod llawn o'r cyngor wedi'i gynnal ar 08/11/2023.

Cyflwynodd Mr Roger Thomas, Prif Swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru y cyfyngiadau cyllidebol a beth mae'r gwasanaeth yn ei gostio. Derbynnir y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ffurf ardoll gan y chwe Awdurdod Unedol yn eu hardal ac mae'n cyfateb i tua 14 miliwn y flwyddyn. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar boblogaeth. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn am gynnydd o 7.6% yn yr ardoll, a fydd yn effeithio ar dreth y cyngor. Y llynedd fe wnaethon nhw ofyn am 13% ond roedd yn 16.4% yn y diwedd. Felly eleni mae'n debygol iawn y bydd y 7.6% yn cynyddu i 9.4%.

Bydd y cynnydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gyflogres, trafnidiaeth, eiddo, cyflenwadau a gwasanaethau gan gynnwys yswiriant ac ariannu cyfalaf a phrydlesu. Bydd y cynnydd yn nhreth y cyngor hefyd yn ariannu Heddlu Dyfed Powys a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Gofynnodd y Cyng R Jones a oedd posibilrwydd y byddai gorsafoedd tân yn cau?

Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies na fyddai unrhyw orsafoedd tân yn cael eu cau.

Yn Sir Gaerfyrddin, dim ond gorsaf dân Llanelli sydd â gwasanaeth 24 awr, mae staff yng ngorsaf dân Caerfyrddin yn ystod y dydd ac mae swyddogion tân wrth gefn ar bob adeg arall tra bod y gorsafoedd tân sy'n weddill yn dibynnu ar swyddogion tân wrth gefn yn unig. Ar hyn o bryd mae gan recriwtiaid newydd gyfradd gadael o 40%.

Gofynnodd y Cyng M Griffiths a oedd y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Sir Gaerfyrddin neu ar gyfer Cymru.

Ymatebodd y Cynghorydd Sir A Davies ar ran Sir Gaerfyrddin yn unig.

Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies hefyd fod rhagweld cyllideb ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin yn heriol a bod angen gostyngiad pellach o 13 miliwn o gymharu â'r llynedd.

Roedd y cynllun peilonau yn symud i gyfeiriad cadarnhaol er gwaethaf y cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer Parc Ynni Nant Mithil trwy PEDW a'r gwasanaeth DNS.

Adroddodd y Cynghorydd Sir A Davies ei bod wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys y Sioe Laeth yng Nghaerfyrddin, Gower Foods yn Cross Hands lle maent yn prosesu llaeth yn fenyn a chynnyrch ategol, sgwrs gyda Wyn Jones, Chwaraewr Rygbi Cymru yn Llanymddyfri, nifer o ddigwyddiadau cydlyniant gyda CarmDasd ac ar ddiwedd y mis hwn digwyddiad ar yr Ymgyrch Rhuban Gwyn sy'n tynnu sylw at Gam-drin Domestig ac sy'n cynnwys rheolaeth gydlynol yn erbyn menywod.

Mae ffrâm y twnnel polythen cyntaf i fyny yn Bremenda Isaf ac mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflogi staff i weithio ar y prosiect.

Os oes unrhyw ddigwyddiadau Nadolig yn cael eu trefnu o fewn ein cymuned, rhowch wybod i'r Cynghorydd Sir A Davies.

12/11/2023 – Bydd y Cyng S Herridge a'r Cyng M Griffiths yn perfformio darlleniad ar gyfer y gwasanaeth coffa yn Eglwys Sant Twrog, Llanddarog.

23/12/2023 – Gwasanaeth carolau gyda Band Pres Crwbin ym Mynyddcerrig am 18.00.

Gadawodd y cyfieithydd y cyfarfod am 19.35 gan nad oedd offer cyfieithu wedi cyrraedd.

113/2023-2024 Adroddiad y Cadeirydd.

Adroddodd y Cyng S Herridge ei bod wedi cadeirio Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn Neuadd Bentref Porthyrhyd ar 24/10/2023, lle cymerodd aelodau o'r gymuned ran mewn trafodaeth ynghylch PL/06638 - Adeiladu 42 o gartrefi annedd gyda ffordd mynediad a seilwaith cysylltiedig - Tir yn rhan o Fferm Wern Fraith, Porthyrhyd, Gaerfyrddin, SA32 8PT. Diolchodd y Cyng S Herridge Cefin Campbell AS/MS, y Cynghorydd Sir Anne Davies ac aelodau'r cyngor cymuned am eu cefnogaeth.

114/2023-2024 Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 11/10/2023.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion 11/10/2023. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan y Cyng R McFarlane.

115/2023-2024 Materion yn codi o'r cofnodion uchod.

Dywedodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod yr holl faterion i'w datrys wedi eu gweithredu ac os derbyniwyd gohebiaeth, roedd copi o'r E-bost wedi ei anfon at bob aelod er gwybodaeth.

116/2023-2024 I nodi gohebiaeth neu i restru i'w hystyried mewn cyfarfod o'r cyngor sydd i ddod.

(Mae'r holl ohebiaeth berthnasol yn cael ei e-bostio at aelodau'r cyngor ar yr adeg y'i derbynir a dim ond yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod os oes angen neu os gwneir cais penodol gan yr aelodau neu'r Clerc).

117/2023-2024 Cynllunio.

PL/06638 - Adeiladu 42 o gartrefi annedd gyda ffordd mynediad, ffordd stad a seilwaith cysylltiedig - Tir yn rhan o Fferm Wern Fraith, Porth-yrhyd, Caerfyrddin, SA32 8PT.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn Neuadd Bentref Porthyrhyd ar 24/10/2023, lle cymerodd aelodau o'r gymuned ran mewn trafodaeth ar y gais cynllunio uchod. Adroddodd y Clerc fod llythyr wedi ei fformatio gan y Cyng M Griffiths a'i anfon at holl aelodau'r cyngor am sylwadau cyn ei gyflwyno i Gyngor Sir Caerfyrddin ar 06/11/2023. Darllenodd y Clerc y llythyr yn y cyfarfod.

Adroddodd y Cynghorydd Sir A Davies fod llawer o aelodau'r gymuned wedi mynychu'r cyfarfod a gofynnwyd nifer o gwestiynau ynghylch eu pryderon.

Dywedodd y Cyng Sir A Davies wrth aelodau'r cyngor y bydd 4 o bobl yn cael cyflwyno yn ystod y broses ymgynghori am uchafswm o 4 munud yr un. Rhaid i'r gwrthwynebiadau perthnasol ar gyfer y broses ymgynghori fod yn ffeithiol, yn uniongyrchol ac nid yn ofer. Awgrymodd y Cynghorydd Sir A Davies y dylai pob person gyflwyno ar un or pryderon. Gall y datblygwyr ymateb i bob pryder, ond ni chaniateir unrhyw sylwadau pellach gan y cyhoedd. Dywedodd y Cyng Sir A Davies efallai na fydd yr adroddiad SDCau yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y cyfnod ymgynghori ond y bydd ar gael cyn ei gymeradwyo a bydd yr adroddiad sŵn gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddiweddarau cyn diwedd y dyddiad ymgynghori. Dywedodd y Cyng Sir A Davies fod galw mawr am dai cymdeithasol a phe bai'r pwyllgor cynllunio yn gofyn am ymweliad safle, byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud unwaith y byddai aelodau'r pwyllgor yn dychwelyd i Neuadd y Sir.

Dywedodd y Cyng R Jones fod cysylltiadau trafndiaeth yn gyfyngedig iawn yn y gymuned.

Gofynnodd y Cyng M Griffiths sut y byddai'r cynrychiolwyr yn cael eu henwebu.

Dywedodd y Cyng R Jones y gallai person enwebu ei hun.

Dywedodd y Cyng M Griffiths y dylai fod yn benderfyniad cymunedol.

Awgrymodd y Cynghorydd Sir A Davies y dylai 2 x aelod o'r cyngor cymuned a 2 x aelod o MAP (Mudiad Amddiffyn Porthyrhyd) gyflwyno eu pryderon yn y broses ymgynghori.

Dywedodd y Cyng M Griffiths ei bod yn bosibl na fyddai aelodau'r gymuned o blaid y datblygiad wedi mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol neu ni wnaethant leisio barn yn ystod y cyfarfod.

Gadawodd yr aelod cymunedol y cyfarfod am 20.05.

118/2023-2024 Taliadau.

Ardystiwyd y taliadau isod yn nghyfarfod misol Hydref, a chadarnhawyd hwynt yng nghyfarfod mis Tachwedd. Copïau o anfonebau a anfonwyd at bob aelod yn electronig cyn talu am awdurdodiad. Cynigwyd gan y Cyng R Jones ac eiliwyd gan R Owen.

Dull Talu	Dyddiad	Cyflenwyr a Manylion	Swm £ gan gynnwys TAW
Ar-lein	25/10/2023	JG Evans – Cyflogres Hydref	360.42
Ar-lein	25/10/2023	HMRC – Cyfnod 7	171.40
Ar-lein	25/10/2023	Gwasanaethau Coed Dinefor - 007	300.00

Ar-lein	25/10/2023	Catrin Llwyd – CCLL22	70.00
Ar-lein	25/10/2023	Y Lleng Brydeinig Frenhinol – 2 x Torch	60.00
Ar-lein	26/10/2023	Leekes - 173443	39.97
Ar-lein	30/10/2023	Nest	33.82

119/2023-2024 Derbyniadau.

16/10/2023 - Gwerthuo 8 xTseina Esgyrn Mwg Coroniad Brenin Siarl III - £45.60.

120/2023-2024 Ystyried ceisiadau am gyllid.

Dyweddodd y Clerc wrth aelodau'r Cyngor fod ceisiadau wedi dod i law oddi wrth Ambiwllans Awyr Cymru a Chymorth Canser Macmillan ond ni dderbyniwyd e-bost oddi wrth Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin fel yn y blynyddoedd blaenorol. Dywedodd y Cynghorydd Sir A Davies y byddai e-bost yn cael ei dderbyn yn y dyddiau nesaf. Trafododd aelodau'r Cyngor yr holl geisiadau am arian, a phenderfynwyd cyfrannu £50.00 i Apêl Teganau Nadolig a gohirio'r ceisiadau eraill tan gyfarfod mis Mawrth 2024 ar 13/03/2024. **Penderfynwyd** i'r Clerc drefnu cyfraniad o £50.00.

121/2023-2024 Derbyn diweddariad ar garreg goffa Porthyrhyd.

Dim Diweddariad.

122/2023-2024 Adolygiad o Bolisïau a'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ar gyferCymru.

Derbyniodd y Clerc yr e-bost canlynol ar 27/10/2023 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor.

Taliad sylfaenol ar gyfer costau ychwanegol gweithio o gartref.

Rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w haelodau (cyfwerth â £3 yr wythnos) tuag at gostau ychwanegol y cartref (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio gartref.

Gosod taliad ar gyfer nwyddau traul.

Rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul eu swyddfa.

Derbyniodd y Clerc yr e-bost canlynol ar 01/11/2023 a'i anfon ymlaen at holl aelodau'r cyngor.

Cynghorau Cymuned a Thref - Lwfansau Cynghorwyr - Trefniadau gweithio gartref a nwyddau traul.

Mae'r Panel wedi cael y canllawiau canlynol gan Gyllid a Thollau EM, ynghylch y driniaeth o dreth ar lwfansau cynghorwyr:

Adran 316A o'r Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 sy'n datgan nad oes unrhyw rwymedigaeth i dreth incwm yn codi mewn cysylltiad â thaliad y mae cyflogwr yn ei wneud i gyflogai mewn perthynas â threuliau cartref ychwanegol rhesymol y mae'r cyflogai'n eu tynnu wrth gyflawni dyletswyddau'r gyflogaeth gartref o dan drefniadau gweithio gartref. Dim ond i'r taliad o £156 a wneir o dan Benderfyniad y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol y mae'r eithriad yn

berthnasol. Nid yw'n eithrio unrhyw gostau cartref ychwanegol y gall Cynghorydd geisio eu hawlio.

Rhaid i'r ddau amod canlynol fod yn berthnasol i'r eithriad:

- Y ddarpariaeth gyntaf yw bod yn rhaid cael trefniant ffurfiol rhwng y cynghorydd unigol a'r Cyngor Cymuned a Thref.
- Yn ail, rhaid i bob cynghorydd unigol ddatgan ei fod yn gweithio o gartref yn rheolaidd o dan y trefniadau hyn. Dylid gosod y trefniant hwn ac atodi llythyr templed i chi ei ddefnyddio.

Mae'r IRP wedi penderfynu bod yn rhaid i Gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i Gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

Mae'r Panel hefyd wedi cael cadarnhad gan Gyllid a Thollau EM y gellir gweithredu eithriad hefyd (o 5/4/2023) i'r taliad nwyddau traul cyfradd unffurf. Lle mae Cyngor wedi penderfynu talu ad-daliad cyfradd unffurf o £52, yna ystyrir bod y swm hwn wedi'i eithrio o drefniadau TWE.

Fe'ch cynghorir i anfon nodyn byr yn amlinellu hyn at bob Cynghorydd ac amgaeir llythyr templed. Dylai clercod hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, er enghraifft, pan fydd Cynghorydd yn rhoi'r gorau i weithio o gartref, neu fel arall ddim yn gymwys mwyach, a fyddai'n golygu nad yw'r taliadau hyn bellach yn dod o fewn yr eithriadau.

Bu'r Clerc a'r Cyng R Jones yn trafod yr uchod cyn y cyfarfod a chytunwyd mai'r unig newid yw na fyddai'r taliad o £156.00, pe bai'n cael ei dderbyn gan aelodau'r cyngor, yn drethadwy. Pob mater arall i'w drafod fel arfer yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 08/05/2024.

123/2023-2024 Fforwm er mwyn i Aelodau godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd.

Adroddodd y Cyng T Evans bod nifer o ddamweiniau wedi digwydd dros y blynnyddoedd diwethaf ar ffordd ddeuol yr A48 gan deithio tua'r gorllewin i Fferm Pant Y Pwll gyda cherbydau'n hedfan i'r cae oherwydd dwr llonydd. **Penderfynwyd** i'r Cynghorydd Sir A Davies adrodd i'r adran berthnasol.

Adroddodd y Cyng R McFarlane bolyn pren anniogel ger Glenview, Llanddarog a mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch plant ysgol ac aelodau'r gymuned. **Penderfynwyd** i'r Clerc ymchwilio ac adrodd i'r cwmni perthnasol.

Gofynnodd y Cyng R Jones a oedd holl aelodau'r cyngor yn ymwybodol o'r posibilrwydd o gau Meddygfa'r Tymbl a Cross Hands. Darganfu'r Cyng R Jones trwy ddamwain fod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Neuadd Bentref y Tymbl ar 08/11/2023 o 14.00 – 19.00. Yn ystod y cyfarfod cyhoeddus fe'i hysbyswyd nad oedd yr holl lythyrau wedi'u postio at y cleifion, felly roedd presenoldeb yn isel iawn. Mynegodd y Cyng R Jones ei siom i aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a gofynnodd i'r Clerc ysgrifennu llythyr llym at y bwrdd iechyd a'r feddygfa yn nodi y dylai pob claf ac aelod o'r gymuned fod wedi cael gwybod am y cyfarfod cyhoeddus cyn y cyfarfod. gan fod hyn yn bryder mawr i bawb oedd yn byw yn yr ardal.

Penderfynwyd i'r Clerc fformatio'r llythyr a'i anfon at y Cyng R Jones i'w brawfddarllen.

124/2023-2024 Mewn camera 19.55.

Gadawodd y rhai nad oeddent yn aelodau o'r Cyngor Cymuned neu'r Clerc y cyfarfod – i beidio â dychwelyd. Mae'r gwaharddiad oherwydd bod materion personél / staffio yn cael eu trafod.

125/2023-2024 Rhediad cyflog staff Tachwedd 2023.

Adroddodd y Clerc symiau'r gyflogres ar lafar i holl aelodau'r cyngor. **Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a chadarnhau taliad y symiau a gyflwynwyd.

Derbyniwyd e-bost ar 07/11/2023 ac fe'i hanfonwyd at holl aelodau'r cyngor ynghylch cytundeb cyflog cenedlaethol 2023 – 2024 oddi wrth NALC.

Adroddodd y Clerc fod cyflog presennol o LC1 PWYNT 8, sef £20,852 wedi cynyddu i £24,702 a bod y cyflog newydd yn weithredol o 01/04/2023. Cadarnhaodd y Cyng R Jones adroddiad y Clerc, a chytunodd holl aelodau'r cyngor a oedd yn bresennol i'r cyflog newydd. Cadarnhaodd y Cyng R Jones hefyd fod arian ar gael yn y gyllideb i ganiatáu ar gyfer y cynnydd gan fod y Clerc wedi rhagweld y cynnydd.

Penderfynwyd i'r Clerc weithredu'r cynnydd o 01/04/2023 yng nghyflogres Rhagfyr 2023.

126/2023-2024 Daeth y cyfarfod i ben am 20.40.

Cadeirydd

Dyddiad
